

# SL(5)611 – Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Swyddogaethau Awdurdodau Lleol) (Cymru) 2020

## Cefndir a Diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn rhoi pwerau ychwanegol i awdurdodau lleol ledled Cymru mewn ymateb i'r bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd o ganlyniad i fynychder a lledaeniad coronafeirws syndrom anadlol aciwt difrifol 2 (SARS-CoV-2) yng Nghymru. Mae'r Rheoliadau hyn yn cynnwys pwerau i awdurdodau lleol, drwy gyhoeddi cyfarwyddiadau i bobl berthnasol, wneud y canlynol:

- cau mangre unigol, neu osod cyfyngiadau neu ofynion mewn perthynas â defnyddio'r fangre, mynediad ati, neu nifer y bobl ynddi;
- gwahardd digwyddiadau penodol (neu fathau o ddigwyddiad) rhag cael eu cynnal neu osod cyfyngiadau neu ofynion mewn perthynas â chynnal y digwyddiad, mynediad ato, neu nifer y bobl sy'n ei fynychu; a
- chyfyngu mynediad at fannau cyhoeddus awyr agored (neu fathau o fannau cyhoeddus awyr agored), neu eu cau.

Mae'r Rheoliadau hyn hefyd yn parhau â dyletswydd a osodwyd eisoes ar awdurdodau lleol, awdurdod Parc Cenedlaethol, Cyfoeth Naturiol Cymru a'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol i gau llwybrau cyhoeddus a thir sy'n hygyrch i'r cyhoedd yng Nghymru lle gallai pobl ymgynnull, gan beri risg uchel o ddod i gysylltiad â'r coronafeirws.

## Gweithdrefn

Gwneud cadarnhaol.

Gwnaed y Rheoliadau hyn gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Rhaid i'r Senedd gymeradwyo'r Rheoliadau o fewn 28 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddiwrnodau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu neu (ii) ar doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y'u gwnaed er mwyn iddynt barhau i gael effaith.

## Materion technegol: craffu

Nodir y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**1. Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod y gwaith drafftio yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol.**



Un o'r pwerau galluogi a nodwyd yn y rhaglith i'r Rheoliadau hyn yw adran 45C o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 (Deddf 1984). Yn ddarostyngedig i adran 45R o Ddeddf 1984, ni chaniateir gwneud offeryn sy'n cynnwys rheoliadau o dan adran 45C o Ddeddf 1984 oni bai bod drafft o'r offeryn wedi'i osod gerbron y Senedd, a'i gymeradwyo drwy benderfyniad ganddi.

Mae'r Rheoliadau hyn yn cadarnhau iddynt gael eu gwneud o dan adran 45R o Ddeddf 1984. Yn rhinwedd adran 45R(2) o Ddeddf 1984, gellir gwneud offeryn heb i drafft gael ei osod a'i gymeradwyo fel sy'n ofynnol gan adran 45C(4) o Ddeddf 1984 os yw'r offeryn yn cynnwys datganiad bod y person sy'n ei wneud o'r farn, oherwydd bod brys, ei bod yn angenrheidiol gwneud y gorchymyn heb osod a chymeradwyo drafft yn y ffordd hon. Er bod y Memorandwm Esboniadol i'r Rheoliadau yn cynnwys datganiad o'r fath, nid yw'r datganiad wedi'i gynnwys yn y Rheoliadau fel sy'n ofynnol gan adran 45R(2) o Ddeddf 1984.

Mae'r offeryn yn honni ei fod yn cael ei wneud gan ddibynnu'n rhannol ar ddarpariaeth (adran 45R(2) o Ddeddf 1984) sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r datganiad gael ei gynnwys yn yr offeryn ac felly na chydymffurfiwyd â'r gofynion statudol o gynnwys datganiad yn yr offeryn.

## **2. Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod y gwaith drafftio yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol.**

Yn rheoliad 2(g), mae cyfeiriad at reoliad 7(1), a ddylai gynnwys y diffiniad o "man cyhoeddus". Mae hyn yn anghywir ac yn hytrach dylai gyfeirio at reoliad 7(2). Mae'r cyfeiriad cywir wedi'i gynnwys yn fersiwn Gymraeg y Rheoliadau hyn.

## **3. Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod y gwaith drafftio yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol.**

Yn rheoliad 16(9), mae cyfeiriad at baragraff (9), sy'n cyfeirio at swyddog gorfodi fel bod â sail resymol dros amau bod person yn torri rheoliad 14(4), neu ar fin ei dorri. Mae hyn yn anghywir ac yn hytrach dylai gyfeirio at baragraff (8). Mae'r cyfeiriad cywir wedi'i gynnwys yn y fersiwn Gymraeg.

## **Rhinweddau: craffu**

Nodwyd y pwyntiau a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## **4. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Mae Rheoliad 9 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol roi sylw i unrhyw ganllawiau a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru ynghylch cyfarwyddydau o dan Ran 2. Mae yna nifer o ddarpariaethau yr ymddengys eu bod yn elwa o esboniad pellach a fyddai'n cael eu nodi mewn canllawiau o'r fath, er enghraifft arwydd o beth yw "seilwaith allweddol" at ddibenion rheoliad 5(3), "nwyddau a gwasanaethau cyhoeddus hanfodol" at ddibenion rheoliad 5(5) neu "esgus rhesymol" dros fynd yn groes i gyfarwyddyd.



Adeg ysgrifennu hyn, mae adran "Gorfodaeth a dirwyon" rheoliadau y Coronafeirws: tudalen cwestiynau cyffredin ar wefan Llywodraeth Cymru yn cyfeirio at y drefn o orfodaeth a dirwyon o dan Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafirws) (Rhif 2) (Cymru) Rheoliadau 2020, ond nid y Rheoliadau hyn. Mae'r dudalen yn nodi iddi gael ei diweddaru ddiwethaf ar 14 Medi 2020.

Nid yw'n ymddangos bod y canllawiau mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn yn cael eu cyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru, neu o leiaf nad yw'n hawdd eu hadnabod.

Credwn y byddai sicrhau bod y canllawiau ar gael, neu'n fwy hygyrch, o gymorth i awdurdodau lleol ac aelodau o'r cyhoedd sy'n dymuno deall effaith y Rheoliadau hyn.

### **5. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Mae'r Rheoliadau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol gymryd camau rhesymol i roi hysbysiad ymlaen llaw o gyfarwyddyd mangre, cyfarwyddyd digwyddiad neu gyfarwyddyd man cyhoeddus. Rhaid rhoi hysbysiad ymlaen llaw:

- mewn perthynas â chyfarwyddyd mangre, i berson sy'n cynnal busnes o'r fangre ac, os yw'n wahanol, unrhyw berson sy'n berchen ar y fangre neu'n ei meddiannu;
- mewn perthynas â chyfarwyddyd digwyddiad, i berson sy'n ymwneud â threfnu'r digwyddiad ac, os yw'n wahanol, unrhyw berson sy'n berchen ar y fangre neu'n meddiannu'r fangre lle bydd y digwyddiad yn cael ei gynnal; ac
- mewn perthynas â chyfarwyddyd man cyhoeddus, i bersonau sy'n cynnal busnes o fangre yn y man cyhoeddus a sicrhau ei fod yn cael ei ddwyn at sylw unrhyw berson sy'n berchen ar unrhyw fangre yn y man cyhoeddus, yn ei meddiannu neu'n gyfrifol amdani.

Mae Rheoliad 11 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol roi cyfarwyddyd i'r canlynol:

- yn achos cyfarwyddyd mangre, person sy'n cynnal busnes o'r fangre ac, os yw'n wahanol, person sy'n berchen ar y fangre neu'n ei meddiannu, neu fel arall yn gyfrifol amdani;
- yn achos cyfarwyddyd digwyddiad, person sy'n ymwneud â threfnu'r digwyddiad ac, os yw'n wahanol, person sy'n berchen ar y fangre, yn meddiannu'r fangre, neu fel arall yn gyfrifol amdani lle bydd y digwyddiad yn cael ei gynnal neu y cynigir y bydd yn cael ei gynnal; ac
- yn achos cyfarwyddyd man cyhoeddus, person sy'n cynnal busnes o fangre yn y man cyhoeddus a phob person sy'n berchen ar unrhyw fangre yn y man cyhoeddus, yn ei meddiannu neu fel arall yn gyfrifol amdani.



Mae Rheoliad 12 yn darparu i berson â buddiant wneud apêl i'r Llys Ynadon yn erbyn cyfarwyddyd neu gyflwyno achos am y cyfarwyddyd i Weinidogion Cymru. Y diffiniad o "person â buddiant" yw:

- yn achos cyfarwyddyd mangre, person sy'n cynnal busnes o'r fangre ac, os yw'n wahanol, person sy'n berchen ar y fangre neu'n ei meddiannu;
- yn achos cyfarwyddyd digwyddiad, person sy'n ymwneud â threfnu'r digwyddiad ac, os yw'n wahanol, person sy'n berchen ar y fangre lle mae'r digwyddiad yn cael ei gynnal neu y cynigir y bydd yn cael ei gynnal, neu'n meddiannu'r fangre; ac
- yn achos cyfarwyddyd man cyhoeddus, person sy'n cynnal busnes o fangre yn y man cyhoeddus a pherson sy'n berchen ar unrhyw fangre yn y man cyhoeddus, yn ei meddiannu neu'n gyfrifol amdani.

Defnyddir yr ymadrodd "fel arall yn gyfrifol am y fangre" mewn rhai rheoliadau sy'n ymwneud â gwneud cyfarwyddiadau, ond nid ym mhob un. Mae'n ymddangos bod defnyddio'r ymadrodd hwnnw mewn rhai rheoliadau, ond nid ym mhob un, yn awgrymu bod gwahaniaeth rhwng unigolion sy'n berchen ar fangre ac yn ei meddiannu, a'r rheini sy'n gyfrifol am fangre. Os yw hynny'n wir, bydd person sy'n gyfrifol am fangre, ond nad yw'n berchen ar y fangre honno nac yn ei meddiannu:

- yn cael hysbysiad ymlaen llaw mewn perthynas â chyfarwyddyd man cyhoeddus yn unig;
- yn cael cyfarwyddyd mangre, cyfarwyddyd digwyddiad neu gyfarwyddyd man cyhoeddus; ac
- yn cael gwneud apel neu gyflwyno achos mewn perthynas â chyfarwyddyd man cyhoeddus yn unig.

Mae'n ymddangos bod hyn yn awgrymu gwahaniaeth mewn triniaeth rhwng y mathau o hysbysiad mewn perthynas â phob un o'r materion hyn, ond nid yw'n glir pam mae angen gwahaniaethu fel hyn.

#### **6. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Yn y trydydd paragraff o Ran 4 o'r Memorandwm Esboniadol, mae cyfeiriad at "policy officer", sy'n ymddangos fel gwall argraffyddol a ddylai yn lle hynny ddarllen "police officer". Mae'r un gwall yn ymddangos yn y fersiwn Gymraeg, lle defnyddir "swyddog polisi".

### **Y goblygiadau yn sgil ymadael â'r Undeb Ewropeaidd**

Dim.



## Ymateb Llywodraeth Cymru

O ystyried yr amgylchiadau presennol o ran y coronafeirws, mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol.

## Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn yn ei gyfarfod ar 21 Medi 2020 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd uchod. Yn ogystal, nododd y Pwyllgor fod yr offeryn wedi'i ddirymu gan y Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Swyddogaethau Awdurdodau Lleol etc.) (Cymru) 2020, a osodwyd gerbron y Senedd ar 18 Medi 2020.

